

# Dyfarnu Grantiau

Polisi Iaith Gymraeg

**Cymraeg**

# Cyngor Sir y Fflint

## Dyfarnu Grantiau – Polisi Iaith Gymraeg

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd  
This document is also available in English

Perchennog y ddogfen ar gyfer adolygu	Ymgynghorydd Polisi Strategol
Dyddiad ei roi ar waith	01.02.2023
Dyddiad y diwygiad diwethaf	
Fersiwn	<b>1.00</b>
Dyddiad yr adolygiad nesaf	01.02.2026

## Cyngor Sir y Fflint

### Dyfarnu Grantiau – Polisi'r Gymraeg

#### 1. Cyflwyniad

1.1. Rydym ni'n cydnabod y cyfraniad y mae'r sector gwirfoddol, yn cynnwys elusennau, mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a sefydliadau di-elw a chymunedol yn ei wneud i'n cymunedau ac rydym ni wedi ymrwymo i'w cefnogi nhw. Un ffordd yr ydym ni'n gwneud hyn yw drwy roi grantiau neu gyllid arall.

1.2 Pan fyddwn ni'n hyrwyddo a dyfarnu grantiau, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Gymraeg a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2016 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud mewn cysylltiad â grantiau. Mae Atodiad 1 yn rhestru manylion safonau'r Gymraeg perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Polisi hwn. Mae safonau'r Gymraeg 71 i 75 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yn Gymraeg yn ystod pob cam o'r broses rhoi grantiau.

1.3 Mae safon y Gymraeg 94 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau. Mae'n rhaid i'r polisi gynnwys ein trefniadau ar gyfer ystyried yr effaith ar y Gymraeg hefyd wrth wneud penderfyniad a'i weithredu o ran dyfarnu grant.

1.4 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob Portffolio a gwasanaeth y Cyngor sy'n rhoi grantiau i unigolion a/neu sefydliadau. Caiff rhai o'n grantiau ni eu rheoli a'u gweinyddu ar ein rhan gan sefydliadau eraill, ac mae'n ofynnol i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â'r Polisi hwn hefyd.

#### 2. Diben y Polisi

2.1 Diben y Polisi hwn yw sicrhau:

- bod gwasanaethau'n ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau a chyllid;
- y gwneir defnydd addas o'r Gymraeg o fewn unrhyw weithgaredd yr ydym ni'n rhoi cyllid grant ar ei gyfer;
- manteisio ar gyfleoedd i hybu'r Gymraeg; a
- sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg drwy gydol y broses o roi grantiau.

2.2 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn diffinio "grant" fel a ganlyn:

Fel arfer, mae 'grant' yn drosglwyddiad parhaol o arian i berson, nad oes rhaid ei dalu'n ôl neu ei ddychwelyd. Mae'r term 'grant' yn cynnwys unrhyw gymorth ariannol y mae corff yn ei roi i berson at brosiect neu ddiben penodol. Fel arfer, dim ond rhan o gyfanswm y costau y bydd grant yn talu amdano. Caiff grantiau fel arfer eu defnyddio yn unol â thelerau ac amodau penodol. Gall y term gynnwys cymorth ariannol neu fudd-dal ond nid yw'n cynnwys swm o arian a gaiff ei roi i berson drwy broses gaffael, er enghraifft, gwasanaethau a gaiff eu comisiynu.

**Polisi Comisiynydd y Gymraeg ar ddyfarnu grantiau: Dogfen gyngor arferion da Medi 2020.**

**2.3** Mae enghreifftiau o grantiau/cyllid y Cyngor yn cynnwys:

- Cist Gymunedol
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Cronfa Budd Cymunedol Parc Adfer
- Grant Gwisg Ysgol
- Cyllid Strategol
- Cronfa'r Degwm

### **3. Egwyddorion sy'n sail i'r Polisi**

Yr egwyddorion sy'n sail i'r Polisi yw:

- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn unrhyw weithgaredd yr ydym ni'n rhoi cyllid grant iddo;
- dylai gweithgareddau yr ydym ni'n eu cyllido hybu a hwyluso'r Gymraeg pryd bynnag y bo modd; a
- bod y broses o roi grantiau yn cyfrannu at ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru (Miliwn o siaradwyr Cymraeg) pryd bynnag y bo modd.

### **4. Cwmpas**

4.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob Portffolio a gwasanaeth sy'n dyfarnu grantiau neu ffynonellau cyllid eraill i sefydliadau.

4.2 Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n rheoli a gweinyddu grantiau ar ran y Cyngor gydymffurfio â'r Polisi hwn hefyd.

4.3 Mae pob grant, rhai mawr a rhai bach, wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y Polisi hwn.

4.4 Mae'n rhaid i grantiau a chyllid gydymffurfio â safonau 71-75 (hybu, ceisiadau, gohebiaeth).

4.5 Os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau ar ran corff arall (Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall sy'n gorfod cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) a bod telerau ac amodau penodol y grant yn cynnwys ystyriaethau'r Gymraeg, yna bydd y Polisi hwn yn berthnasol.

4.6 Os yw'r Cyngor yn dyfarnu grantiau ar ran sefydliadau nad ydyn nhw'n gorfod cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac nad oes unrhyw delerau ac amodau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg wedi'u nodi yn y grant, yna bydd yr holl safonau'r Gymraeg perthnasol eraill yn berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n canllawiau, ffurflenni cais, cyhoeddusrwydd ac ati.

### **5.0 Y Gymraeg o fewn y broses ymgeisio**

Mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer cyllid grant:

- Mae'n rhaid i weithgareddau hyrwyddo, ffurflenni cais a nodiadau cyfarwyddyd fod yn Gymraeg a Saesneg. Os caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg y nodiadau

cyfarwyddyd eu cyhoeddi ar wahân, bydd y datganiad canlynol yn cael ei gyhoeddi ar y fersiwn Saesneg:

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.**

**This document is available in Welsh.**

- Dylai nodiadau cyfarwyddyd gynnwys paragraff yn nodi ein hymrwymiad i'r Gymraeg, ein rhwymedigaethau statudol a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg a pha mor bwysig ydyw i brosiectau hybu'r Gymraeg ac os ydynt yn darparu gwasanaethau, i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Gweler Atodiad 2 am enghraifft.
- Dylai'r ffurflen gais a nodiadau cyfarwyddyd nodi y gall ceisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg neu'n Saesneg ac ni fydd ceisiadau yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai Saesneg.

**Ni fydd unrhyw gais am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.**

**Any application for a grant submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application submitted in English.**

- Dylid gofyn i ymgeiswyr beth yw eu dewis iaith, Cymraeg/Saesneg, a'u dewis fformat fel print bras, Braille, Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cyfathrebu.
- Mae'n rhaid i grantiau sy'n agored i sefydliadau ofyn y cwestiwn gorfodol hwn ar ffurflenni cais. Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg perthnasol drwy ofyn i'r ymgeisydd roi gwybodaeth am effaith y cynnig ar y Gymraeg.

**Rhowch wybod i ni:**

**i) Pa effeithiau gaiff y gweithgaredd ar y Gymraeg, mae hyn yn cynnwys:**

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, preswylwyr, ymwelwyr; a
- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**ii) a fydd yr effaith yn gadarnhaol neu'n andwyol.**

**iii) Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau andwyol?**

- Bydd Safonau'r Gymraeg 71 - 75 yn berthnasol ar gyfer grantiau Llywodraeth Cymru gan unigolion ar gyfer nwyddau a gwaith fel Grantiau Gwisg Ysgol, Prydau Ysgol am Ddim a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, h.y. mae'n rhaid i'r broses gyfan fod ar gael yn Gymraeg. Nid yw'r cwestiwn uchod yn ofynnol.

## 6. Asesu ceisiadau am grant

6.1 Mae'n rhaid ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth asesu ceisiadau am grant. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

6.2 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn diffinio 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' fel peidio â rhoi unrhyw un dan anfantais os ydyn nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a sicrhau bod y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg, hygyrch ac o'r un ansawdd â'r Saesneg bob amser.

6.3 Bydd rhaid i Baneli Grant nodi effeithiau posibl gan geisiadau ac a yw'r effeithiau hyn yn gadarnhaol neu'n andwyol:

- Effeithiau cadarnhaol - mae enghreifftiau'n cynnwys bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn fwy amlwg, neu nad oes unrhyw rwystrau ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda deilliannau sydd o leiaf cystal.
- Effeithiau andwyol/andwyol - mae enghreifftiau'n cynnwys bod llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, bod y Gymraeg yn llai amlwg, neu fod pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn wynebu mwy o rwystrau neu ddeilliannau llai ffafriol na phobl sy'n defnyddio'r Saesneg, er enghraifft, nid yw gwybodaeth ddigidol ar gael yn Gymraeg.

## 6.4 Enghreifftiau o ffactorau i'w hystyried wrth nodi effeithiau

Mae canllawiau Comisiynydd y Gymraeg yn argymhell ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y Gymraeg. Dyma rai enghreifftiau:

### Effeithiau uniongyrchol

- A fydd modd defnyddio'r Gymraeg mewn elfennau cyhoeddus o'r gweithgaredd, ac wrth gyfathrebu â'r trefnwyr?
- A fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth hybu a hysbysebu'r gweithgaredd?
- A fydd deunyddiau sy'n cael eu cynhyrchu yn sgil y gweithgaredd ar gael yn Gymraeg?
- A fydd y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg â'r Saesneg o ran deunyddiau, arwyddion, logos, cyhoeddiadau sain ac ati sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg?

## **Effeithiau anuniongyrchol**

- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar gynaliadwyedd cymunedau lle mae'n bwysig gweld twf neu gysondeb o ran nifer siaradwyr y Gymraeg a defnydd pobl o'r Gymraeg, er enghraifft o ganlyniad i effaith ar yr economi, cynllunio, addysg neu gyfleoedd cymdeithasol?
- A fydd y gweithgaredd yn cael effaith ar nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at greu cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg?
- A fydd y gweithgaredd yn arwain at alluogi pobl a'u hysgogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned neu yn y teulu?

**6.5 Cofnodi penderfyniadau.** Mae templed enghreifftiol (yn seiliedig ar dempled Comisiynydd y Gymraeg) ar gyfer asesu ceisiadau a chofnodi penderfyniadau wedi'i gynnwys fel Atodiad 3. Mae hyn yn cynnwys pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r Gymraeg yn y cais a sut mae hyn wedi effeithio ar y penderfyniad. Gall hyn gael ei ymgorffori o fewn meini prawf sgorio presennol y Panel Grant.

## **6.6 Cyfweiliadau**

Os byddwch chi'n cynnal cyfweiliadau fel rhan o'r asesiad o'r cais am grant, mae'n rhaid i chi ddarparu cyfieithu ar y pryd yn Gymraeg os yw'r ymgeisydd yn dymuno cael ei gyfweled yn Gymraeg, oni bai bod aelodau'r panel yn gallu cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg. Bydd angen i chi hefyd ystyried cydraddoldeb yn rhan o'r cyfweiliad, er enghraifft, hygyrchedd, neu gynnig dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain

## **7.0 Dyfarnu grantiau**

**7.1** Bydd angen i baneli ar gyfer ceisiadau am grant ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad neu ei weithredu (er enghraifft, drwy osod amodau grant) er mwyn sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
- pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**7.2** Gall telerau ac amodau/manylion y grant gynnwys gofynion o ran y Gymraeg neu unrhyw ofynion ychwanegol o ran y Gymraeg. Gall y rhain fod yn syml a rhwydd. Er enghraifft, gofyn i ymgeiswyr:

- arddangos arwyddion dwyieithog.
- darparu gweithgareddau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- targedu siaradwyr Cymraeg.
- cynhyrchu llenyddiaeth hyrwyddo ddwyieithog.
- defnyddio bwydlenni dwyieithog mewn clwb cinio.

**7.3** At ddibenion grantiau mwy, dros £50,000, dylid cynnwys gofynion mwy eang o ran y Gymraeg, er enghraifft, sicrhau bod y prosiect yn gyfan gwbl ddwyieithog. Gallai hyn gynnwys sefydliadau yn recriwtio siaradwyr Cymraeg a/neu sefydlu gwefannau dwyieithog.

7.4 Darperir gwasanaeth cyfieithu Cymraeg yn rhad ac am ddim drwy Busnes Cymru, sef Helo Blod Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer busnesau ac elusennau i'w cynorthwyo nhw i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Maen nhw hefyd yn gallu cynnig arweiniad a chynngor i gynorthwyo sefydliadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

7.5 Mae adran Gyfreithiol y Cyngor wedi datblygu templed o gontract i'w ddefnyddio gyda grantiau, mae hwn yn cynnwys cymal safonol yn ymwneud â'r Gymraeg.

7.6 Mae'n rhaid i ohebiaeth i'r ymgeisydd sy'n rhoi gwybod iddynt am ganlyniad y cais (boed yn llwyddiannus neu beidio) fod yn Gymraeg os cafodd y cais ei gyflwyno'n Gymraeg.

## **8. Monitro'r Grant**

8.1 Fel sy'n digwydd gyda phob grant, dylai fod rhyw fath o broses fonitro. Dylai'r Gymraeg gael ei chynnwys mewn adroddiadau monitro i sicrhau bod y camau a amlinellwyd o ran y Gymraeg yn y cais a/neu yn ofynnol o fewn amodau'r grant wedi'u gweithredu.

8.2 Gellid hefyd holi am ddata i ddangos yr effaith ar y Gymraeg fel rhan o waith monitro, e.e.:

- Nifer y deunyddiau a gynhyrchwyd yn Gymraeg/copïau o ddeunyddiau.
- Nifer y staff neu wirfoddolwyr a allai gynnig gwasanaeth Cymraeg.
- Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd.
- Adborth gan ddefnyddwyr am ddefnyddio'r Gymraeg.

I gael cymorth yn ymwneud â'r Gymraeg mewn grantiau, cysylltwch â'r Ymgynghorydd Polisi Strategol.



## Atodiad 1 safonau perthnasol o Safonau'r Gymraeg

Rhif	Safon
71	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.
72	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
72A	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).
74	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).
75	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.
94	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant - (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;  (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;  (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu

	<p>30/09/2016 fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -</p> <ul style="list-style-type: none"><li>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</li><li>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</li></ul> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -</p> <ul style="list-style-type: none"><li>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</li><li>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</li></ul>
--	---

## **Atodiad 2 Paragraff enghreifftiol i'w gynnwys yn y nodiadau cyfarwyddyd**

Fel awdurdod lleol, rydym ni'n cydnabod bod gennym ni gyfrifoldeb a dyletswydd fel arweinydd cymunedol i hybu, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau presennol a'r dyfodol. Rydym ni wedi ymrwymo i gymryd camau i gyflawni hyn ac yn hyderus fod gan y Gymraeg ddyfodol llewyrchus yn Sir y Fflint.

Mae gennym ni hefyd gyfrifoldebau penodol fel y nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg, dan Fesur y Gymraeg 2011. Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n cael cyllid grant gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru fodloni gofynion y grant drwy drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Wrth wneud penderfyniadau am grantiau dylai'r Cyngor ystyried a oes ffyrdd i'r prosiect/menter gael ei newid i gynnwys rhagor o effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg neu a ellir cynnwys camau i leihau effeithiau andwyol neu gael gwared arnyn nhw'n gyfan gwbl.

**Atodiad 3: Templed awgrymedig Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer asesu effaith ceisiadau grant ar y Gymraeg.**

1	Enw'r grant		
2	Enw'r ymgeisydd		
<b>Rhan 1: nodi effeithiau ar y Gymraeg</b>			
		<b>Effeithiau cadarnhaol</b>	<b>Effeithiau andwyol</b>
3	Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?		
4	Beth fyddai effeithiau dyfarnu'r grant ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?		
<b>Rhan 2: dod o hyd i wybodaeth ychwanegol</b>			
5	A oes angen gwybodaeth ychwanegol i helpu gyda'r penderfyniad?	Oes	Nac oes
	Os 'oes', rhowch fanylion		
<b>Rhan 3: gwneud a gweithredu'r penderfyniad</b>			
		<b>Cymryd a gweithredu penderfyniad (e.e. penderfynu rhoi'r dyfarniad / swm y dyfarniad neu roi gofynion ychwanegol ar ymgeiswyr y grant i gynyddu effeithiau cadarnhaol / lleihau effeithiau andwyol)</b>	
6	Sut gellid addasu'r penderfyniad i gynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg? Er enghraifft darparu gwybodaeth hyrwyddo dwyieithog i hysbysebu'r prosiect/mentor.		
7	Sut gellid addasu'r penderfyniad i leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg? Er enghraifft, gofyn i ymgeisydd y grant gysylltu ag ysgol /		

sefydliad cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ar gyfer prosiect Cyfeillio.	
--	--